Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cae'r Ffair Day Nursery
# 2 Church Road
# Gorslas
# Llanelli
# SA14 7NF

**Dyddiad yr arolygiad: 14 Mai, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**
**Dyddiad cyhoeddi: 14/06/12**

## Cyd-destun

Meithrinfa breifat, ddwyieithog wedi'i lleoli ym mhentref Gorslas, Sir Gaerfyrddin yw Meithrinfa Cae'r Ffair. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Sefydlwyd y feithrinfa yn 2004 ac mae'n darparu ar gyfer plant rhwng tri mis a phedair oed. Mae ystod y ddarpariaeth hefyd yn cynnwys clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol. Mae ar agor o 8:00 hyd 6:00 bob dydd o'r wythnos waith ac am 51 wythnos y flwyddyn.

Cyflogir pymtheg aelod o staff yn y feithrinfa. Mae aelodau'r staff sy'n gweithio gyda'r plant tair oed yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach, gydag un aelod yn athrawes gymwysedig. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd naw plentyn tair oed ar y gofrestr. Ar hyn o bryd, daw y rhan fwyaf ohonynt o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith yr aelwyd. Nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r feithrinfa yn darparu'n briodol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cartrefir y feithrinfa mewn adeilad sy'n cynnig cyfleusterau addas ac adnoddau dysgu o safon dda iawn. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys llecyn chwarae wyneb caled, llecyn gwyrdd sy'n cynnwys ystod o offer chwarae mawr, ac ardaloedd ymchwilio pwrpasol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Estyn yn Chwefror 2006 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2012. Mae'r lleoliad wedi derbyn Marc Ansawdd Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda:

- mae nodweddion rhagorol i'r profiadau dysgu cyfoethog a ddarperir;
- mae'r amgylchedd dysgu ysgogol o ansawdd rhagorol;
- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu;
- mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- mae'r holl blant yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau eu dysgu;
- mae'r addysgu yn dda; ac
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r oedolion.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth gadarn a medrus y perchennog;
- gwaith tîm o ansawdd uchel sy'n cyfrannu'n arbennig i ansawdd y ddarpariaeth;
- tystiolaeth eang o gynllunio a gwelliant effeithiol;
- y defnydd effeithiol iawn o adnoddau o fewn y lleoliad ac yn y gymuned; a'r
- defnydd adeiladol o ystod o bartneriaethau.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 gryfhau medrau llafar y plant; a

A2 chryfhau'r cynllun gwella drwy gynnwys targedau ar gyfer ymestyn cynnydd y plant ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad ac yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth newydd ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwrando'n dda ar straeon a chyflwyniadau'r staff. Dangosant ddiddordeb mewn llyfrau a deallant fod yna ystyr i lun a gair. Gallant ddwyn i gof a sgwrsio'n syml am y prif ddigwyddiadau mewn stori. Gwyddant nifer dda o ganeuon a rhigymau ac maent yn eu hailadrodd yn gywir. Mae ychydig o'r plant yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau ond ymatebion byr a geir gan y mwyafrif. Mae tua hanner y grŵp yn adnabod eu henwau mewn print ac yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o brif lythrennau'r wyddor. Mae'r plant yn mwynhau defnyddio offer marcio mewn ystod o gyfryngau ac yn dechrau deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae ychydig o'r plant yn medru ysgrifennu eu henwau yn annibynnol.

Mae bron pob un o'r plant yn cyfrif i ddeg yn gywir ac yn adnabod rhifau o leiaf i bump. Gwyddant enwau siapiau cyffredin a gallant greu a dilyn patrwm. Gwyddant fod angen arian i brynu nwyddau yn y siop a defnyddiant iaith fathemategol sylfaenol yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i recordio eu lleisiau, creu patrymau a lluniau ac i chwarae gemau. Gyda chymorth, mae rhan fwyaf y plant yn medru cynllunio taith i'r tegan rhaglenadwy a defnyddio camera digidol i dynnu lluniau.

Gwna'r plant ddefnydd dychmygus o ystod o ddeunyddiau i gynhyrchu peintiadau a darluniau o safon dda. Dangosant fedrau llawdrin mân da wrth ddal pensil neu frwsh ac wrth ddefnyddio offer torri a gludo. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio eu medrau ymchwilio a gwneud penderfyniadau yn effeithiol mewn ystod o weithgareddau yn yr ystafell a thu allan ac yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol.

**Lles: Da**

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad ac yn ffurfio perthnasoedd effeithiol gyda phlant eraill a chydag oedolion. Maent yn blant cwrtais a chroesawgar ac yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn cyd-weithio'n hwylus ag eraill ac yn hyderus i ofyn am gymorth gan oedolion.

Mae gan lawer o'r plant ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer y corff. Darperir bwyd maethlon yn ystod y dydd sy'n hyrwyddo arferion bwyta'n iach. Mae ymwybyddiaeth y plant o lendid personol yn dda. Deallant yn dda bwysigrwydd glanhau dannedd a golchi dwylo cyn bwyta.

Mae gan y plant ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn dyfalbarhau yn dda gyda'u tasgau. Mae y rhan fwyaf yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn hyderus ac yn cymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau a drefnir yn y lleoliad ac yn y gymuned ehangach.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Darperir ystod eang o brofiadau dysgu symbylus a chyfoethog sy'n cymell a diddori'r plant yn gyson. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio'n fanwl i sicrhau cydbwysedd ar draws meysydd dysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Neilltuir cyfnodau penodol yn wythnosol i'r ymarferwyr gyfarfod i gynllunio ac arfarnu'r ddarpariaeth. Caiff y plant eu cynnwys yn gynyddol yn y cynllunio.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant ar draws y cwricwlwm. Cânt eu hymgorffori'n effeithiol yn y profiadau dysgu a ddarperir. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd rheolaidd i'r plant wrando ar storïau, sgwrsio am eu gweithgareddau, edrych ar lyfrau ac i ddefnyddio eu medrau marcio. Rhoddir pwyslais cyson ar ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol drwy'r gweithgareddau a sesiynau amser cylch.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn hynod effeithiol trwy'r defnydd o ymweliadau fel rhan o'r themâu a gynllunnir. Mae ymweliadau, megis â'r eglwys, y traeth, Llyn Llech Owain a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn cael eu defnyddio'n gelfydd i sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae hon yn nodwedd ragorol. Cynllunnir yr ymweliadau yn fanwl gydag amcanion clir sy'n rhoi ffocws ar ddatblygu medrau a dealltwriaeth y plant. Mae'r gwaith dilynol yn y lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r profiadau mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y meysydd dysgu. Caiff y ddarpariaeth ei chyfoethogi ymhellach gan gyfraniadau aelodau o'r gymuned megis y deintydd, saer coed, yr heddlu, y dyn tân a'r ficer.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n gyson gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle i gyflwyno geirfa newydd. Cyflwynir y plant i draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, yn effeithiol iawn. Darperir cyfleoedd o ansawdd da i'r plant ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill hefyd trwy weithgareddau cerdd a chelf a thrwy ddathliadau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Divali.

Mae nodweddion rhagorol i'r ddarpariaeth tu fewn a thu allan i'r lleoliad ar gyfer datblygu dealltwriaeth y plant o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Mae'r ystod profiadau yn cynnwys tyfu planhigion, gofalu am anifeiliaid, astudio anifeiliaid a phlanhigion yn eu cynefin a gweithgareddau ailgylchu amrywiol. Mae'r lleoliad yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gweithredu'n gynaliadwy ac wedi ennill Baner Werdd Eco-Sgolion am yr ail dro.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda o ddatblygiad plant ac o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu, gan gynnwys gwaith ar lefel unigol a grŵp, yn bwrpasol. Caiff y gweithgareddau eu paratoi a'u trefnu'n fanwl a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau i ddarparu cyfleoedd cyson i'r plant ddysgu trwy chwarae a bod yn weithredol. Mae'r ymarferwyr i gyd yn sefydlu perthynas waith agos gyda'r plant sydd yn eu hannog i gyfrannu a mwynhau. Ceir cyflwyniadau brwdfrydig a chwestiynu perthnasol sy'n ymestyn y dysgu yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u datblygiad cyffredinol a'u hanghenion dysgu. Defnyddir gweithdrefnau effeithiol i asesu a chofnodi eu cynnydd a chwblheir cofnod o gyrhaeddiad pob plentyn yn y chwe maes dysgu. Trwy drafodaeth, gwneir defnydd addas o'r wybodaeth a gesglir i gynllunio camau nesaf y dysgu. Mae medrau hunan asesu cychwynnol y plant yn cael eu datblygu'n briodol trwy'r cyfleoedd dyddiol i fynegi barn yn syml am eu hoff weithgareddau.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gyflawniadau a chynnydd eu plant trwy drafodaethau cyson, dyddiau agored a thrwy adroddiadau ysgrifenedig. Danfonir nodiadau atynt yn ddyddiol ynghylch ymateb eu plant ac unrhyw ddigwyddiadau penodol. Maent hefyd yn derbyn ffolder o samplau o waith eu plant mewn llyfryn ac ar ffurf electronig sy'n gofnod gwerthfawr iawn o'u datblygiad yn y feithrinfa.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau manwl i gefnogi iechyd a lles y plant sy’n cynnwys gweithredu polisïau angenrheidiol gyda gofal. Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach, i ofalu am eu hylendid personol ac i ymddwyn yn briodol. Mae’r lleoliad yn cymryd rhan effeithiol yn rhaglen addysg iechyd cyn-ysgol yr awdurdod lleol. Mae’r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o’r holl blant.

Sefydlwyd trefniadau clir ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion y plant eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol are eu cyfer. Mae’r cysylltiadau agos gyda gwasanaethau arbenigol yn sicrhau cyngor a chefnogaeth addas.

Mae profiadau o ansawdd da iawn yn hyrwyddo datblygiad personol y plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn gyson. Hyrwyddir gwerthoedd, megis tegwch a dealltwriaeth o’r hyn sy’n gywir a’r hyn sy’n anghywir, yn gyson drwy’r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau megis ymweld â’r eglwys ar gyfer gwasanaethau, arsylwi ar fedydd a chymryd rhan mewn priodas, yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Y perchennog sydd â chyfrifoldeb am y maes hwn ac mae’r ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant perthnasol. Ymdrinnir ag asesiadau risg yn drwyadl.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae’r amgylchedd dysgu o ansawdd uchel. Mae’n cynnig awyrgylch fywiog ac ysgogol i’r plant. Mae’r lleoliad wedi’i staffio gyda nifer digonol o ymarferwyr. Mae ganddynt gymwysterau addas a phrofiad helaeth o weithio gyda phlant ifanc. Mae ymroddiad yr ymarferwyr i addysg a lles plant, yr ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol pellach a’r cydweithio agos i ddarparu'r profiadau gorau posib yn nodwedd ragorol o’r ddarpariaeth.

Mae ethos y lleoliad yn creu awyrgylch croesawgar a hapus i’r holl blant. Mae’n gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal i’r holl brofiadau dysgu a ddarperir. Rhoddir pwyslais clir ar barchu a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da iawn sy’n cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi’r dysgu. Mae’r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy’n hyrwyddo dysgu annibynnol. Gwneir defnydd rhagorol o adnoddau yn y gymuned i ychwanegu at adnoddau’r lleoliad ac i gyfoethogi’r cwricwlwm.

Mae’r adeilad a’r safle yn cynnig cyfleusterau pwrpasol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o’r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd gweithgareddau o amgylch yr ystafelloedd. Mae cyfleoedd dychmygus i’r plant ddefnyddio eu medrau marcio, er enghraifft, yn llwyddo i ennyn eu diddordeb ac i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Ychwanegir at yr amgylchedd dysgu trwy’r arddangosfeydd deniadol o waith y plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae nodweddion da iawn i ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y perchennog. Mae'n darparu arweiniad strategol cryf sy'n sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Caiff yr addysgu a'r dysgu eu rheoli'n dda iawn, ac mae'r disgwyliadau yn uchel. Caiff polisïau a mentrau eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae'r perchennog a'r ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cadarn am ddatblygiad a lles plant.

Caiff gwaith yr ymarferwyr ei werthuso'n rheolaidd a dilynir strwythur priodol. Trafodir eu datblygiad proffesiynol a darperir cyfleoedd hyfforddiant addas sy'n cynnwys cyfleoedd i ennill cymwysterau galwedigaethol pellach. Caiff yr hyfforddiant a'r profiadau datblygiad proffesiynol pellach effaith adeiladol ar y ddarpariaeth.

Rhoddir sylw da i weithredu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a hybu medrau iaith y plant. Yn ogystal, darperir profiadau gwerthfawr iawn tu fewn a thu allan i'r lleoliad i hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Caiff yr arfer hwn ei rannu gyda lleoliadau ac asiantaethau eraill.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y perchennog a'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad ac o rai meysydd i'w gwella. Mae'r trefniadau arfarnu yn elfen gyson yng ngwaith y lleoliad. Mae'r staff yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn barod i dderbyn syniadau newydd. Mae'r sylw cyson i gamau gweithredu i wella'r arfer yn cael effaith fuddiol ar yr addysgu a'r dysgu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun manwl a chytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r perchennog yn monitro'r ddarpariaeth yn gyson. Ystyrir barn plant, eu rhieni a phartneriaid eraill yn effeithiol. Mae cymorth adeiladol athrawes gyswllt yr awdurdod lleol yn ychwanegu at hyn gydag ymweliadau rheolaidd sy'n galluogi'r lleoliad i fynd i'r afael â mentrau newydd.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella yn cynnwys targedau priodol. Mae'r camau gweithredu yn nodi dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau. Er hynny, nid yw'r cynllun yn rhoi sylw digonol i ymestyn cynnydd a deilliannau'r plant.

Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr holl ymarferwyr. Mae ymrwymiad y perchennog mewn rhwydweithiau addysgol a'r cyfleoedd a gynigir i staff lleoliadau eraill ac ysgolion i ymweld â Meithrinfa Cae'r Ffair yn fodd effeithiol iawn o rannu syniadau a lledaenu arfer dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad y plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Cynigir gwybodaeth reolaidd iddynt am y themâu a astudir ac am ddigwyddiadau a gweithgareddau pwysig. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd rheolaidd i drafod gyda'r staff. Mae mentrau, megis cynnig 'bocsys gweithgareddau' yn ymwneud â'r thema a'r 'sachau llyfrau' i'r plant fynd adref i'w mwynhau yn hyrwyddo ymrwymiad pellach y rhieni yn addysg eu plant.

Mae'r cysylltiadau niferus â'r gymuned leol a'r ymweliadau amrywiol yn dylanwadu'n effeithiol iawn ar brofiadau dysgu'r plant. Mae'r defnydd o asiantaeth leol i gefnogi mentrau megis prosiectau i hybu medrau Cymraeg, rhifedd a chorfforol y plant drwy chwarae, yn bartneriaeth lwyddiannus iawn.

Mae partneriaeth gadarnhaol yn datblygu gyda'r ysgol gynradd leol a cheir cysylltiadau adeiladol gyda busnesau lleol a sefydliadau addysg uwch. Mae perthynas waith fuddiol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod addysg a sefydliadau gwirfoddol eraill. Derbynnir ymwelwyr o leoliadau, ysgolion a cholegau'r cylch.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol iawn i gefnogi'r dysgu. Mae'r perchennog yn sicrhau lefel briodol o staffio i gyflwyno'r cwricwlwm ac i ddarparu ar gyfer lles a datblygiad y plant.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau o ansawdd da iawn a gwneir defnydd llawn ohonynt. Mae adeilad a thir y lleoliad yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Llwyddir i greu awyrgylch deniadol a lliwgar ym mhob ardal ddysgu.

Mae'r perchennog yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Caiff y penderfyniadau eu harfarnu i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd a lles y plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**
**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn sgwrsio'n barod am eu hoff weithgareddau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |